

Rhif: WG40821



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Polisi Glo yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 01 Gorffennaf 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 23 Medi 2020

Trosolwg

Mae polisi ynni yng Nghymru yn canolbwyntio ar gefnogi cynhyrchu carbon isel. Golyga datganoli pwerau ar echdynnu petroliwm ac awdurdodi trwyddedau ar gyfer mwyngloddio glo fod angen am bolisi Cymreig ar danwyddau ffosil. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig polisi drafft ar lo a fydd yn llywio penderfyniadau a wneir ar lo yng Nghymru, gan gefnogi ein hinsawdd a'n nodau lles ehangach.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio'ch barn ar ein polisi drafft ynghylch glo yng Nghymru ac ar y dystiolaeth sy'n sail i'r polisi drafft hwn.

Sut i ymateb

Dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gael eu gyrru erbyn 23:59 ar 23ain Medi 2020, drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:

Ar-lein:

Neu drwy'r post neu e-bost:

Drwy ofyn am ffurflen ymateb a'i dychwelyd i:
YmatebionYnni-EnergyResponses@llyw.cymru
YmatebionYnni-EnergyResponses@gov.wales

Neu;

Polisi Tanwyddau Ffosil – Polisi Glo
Yr Is-adran Datgarboneiddio ac Ynni
Yr Adran Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Rhagor o
wybodaeth a
dogfennau
cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon
mewn print bras, mewn Braille neu mewn
ieithoedd eraill.**

**Mae'r ddogfen yma
hefyd ar gael yn
Saesneg**

<https://gov.wales/consultations>

Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgylmerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Ymgynghoriad ar Bolisi Glo Llywodraeth Cymru

Diben yr ymgynghoriad

Mae'r polisi glo drafft hwn yn rhan o newid pendant Llywodraeth Cymru i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio tanwyddau ffosil er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Amcan polisi Llywodraeth Cymru yw osgoi parhau i gloddio a defnyddio tanwyddau ffosil. Sefydlwyd yr egwyddor yn ymgynghoriad y llynedd ar bolisi petrolewm a chafodd gryn gefnogaeth yn yr ymatebion, yr oedd y mwyafrif llethol ohonynt yn cytuno y gallwn leihau allyriadau uniongyrchol pan rown derfyn ar gloddio glo. Sefydlir y safbwynt hwn hefyd ym Mholisi Cynllunio Cymru, sy'n rhoi tanwyddau ffosil ar waelod yr hierarchaeth ynni ac yn datgan na ddylid caniatáu cynigion ar gyfer datblygiadau glo brig, pyllau glo dwfn na gwaredu gwastraff pyllau glo.

Cyd-destun datblygu'r polisi

Yn ystod y cyfnod digynsail hwn, y prif ffocws yw COVID-19. Mae angen ein hadnoddau a'n gweithredoedd cyfunol i raddau na welwyd erioed o'r blaen er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hwn a sicrhau y gall Cymru symud tuag at ddyfodol mwy disglair. Mae heriau byd-eang y newid yn yr hinsawdd yn golygu bod angen yr un ymateb cyfunol ac mae'n rhaid inni gymhwyso'r gwersi a ddysgwyd yn ystod yr argyfwng hwn at ein gwaith yn y dyfodol.

Mae pandemig y coronafeirws yn argyfwng iechyd y cyhoedd, ac wythnosau yn unig a gymerodd iddo ddatblygu. Er bod yr argyfwng hinsawdd wedi datblygu dros gyfnod llawer hwy, mae ei effaith ar iechyd y cyhoedd a'n heconomi yr un mor sylweddol. Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, bydd angen gweithredu o ddifrif ac yn barhaus, a chydweithio yma yng Nghymru ac ar lefel byd-eang. Wrth inni weithio i adfer ein heconomi a'n cymunedau, rhaid inni wneud hynny mewn ffordd sy'n manteisio i'r eithaf ar y buddiannau ehangach, fel lleihau ein hallyriadau a sicrhau cymdeithas decach ac iachach i bawb.

O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Cymru'n ymrwymedig i darged cyfreithiol gyfrwymol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Yn unol â chyngor Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, rydym yn ymrwymedig i leihau allyriadau 80% o leiaf erbyn 2050. Gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Cyflawni Carbon Isel cyntaf i sicrhau ein bod ar y trywydd i gyrraedd y targedau hyn, sef **Ffyniant i bawb: Cymru Carbon Isel**, ym mis Mawrth 2019. Mae'n nodi 100 o bolisiau a chynigion i leihau allyriadau ym mhob rhan o'r economi.

Yn fuan ar ôl i'r cynllun gael ei gyhoeddi, ac yn dilyn cyfnod o bryder byd-eang cynyddol, gwnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd. Yn dilyn hynny, pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol o blaid y datganiad – y Senedd gyntaf yn y byd i bleidleisio o blaid datganiad o'r fath.

Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, ym mis Mehefin 2019 derbyniodd Llywodraeth Cymru gyngor Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd i bennu targed mwy uchelgeisiol fyth, sef lleihau allyriadau 95% erbyn 2050. Er bod y targed hwn yn cydnabod yr heriau penodol sy'n wynebu Cymru, mynegodd Gweinidogion uchelgais i

fynd ymhellach fyth a chyflawni allyriadau sero-net erbyn 2050 fan bellaf. Mae Llywodraeth Cymru bellach yn y broses o ailystyried llwybr datgarboneiddio Cymru ac adolygu ein targedau interim ar gyfer 2030 a 2040, yn ogystal â'r cyllidebau carbon pum mlynedd a gaiff eu defnyddio i gyrraedd y targedau.

Rydym hefyd yn cydnabod bod angen i Gymru addasu i effeithiau anorfod y newid yn yr hinsawdd. Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun trawslywodraethol ar ein dull o ddelio ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, sef ***Ffyniant i bawb – Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd.***

Er mwyn cyrraedd ein targedau uchelgeisiol mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd, rhaid inni leihau allyriadau sy'n deillio o gynhyrchu ynni, drwy gynhyrchu llai o ynni gan ddefnyddio tanwyddau ffosil a chynhyrchu mwy o ynni gan ddefnyddio ffynonellau adnewyddadwy. Nid yw parhau i gloddio a defnyddio tanwyddau ffosil i gynhyrchu ynni yn gydnaws â'r llwybr i gyrraedd sero-net yn ddigon cyflym i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Yn ***Ffyniant i bawb: Cymru Carbon Isel***, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau drwy gael gwared yn raddol ar gynhyrchu pŵer gan ddefnyddio technolegau glo heb systemau rheoli carbon, yn ogystal â rhoi polisiau cydsynio, cynllunio a thrwyddedu ar waith er mwyn cyrraedd ein targedau datgarboneiddio. Bydd y polisi glo arfaethedig hwn yn llywio penderfyniadau a wneir yng Nghymru ynghylch glo, i gefnogi ein nodau hinsawdd a'n nodau llesiant ehangach.

Yn ein ***Cynllun Aer Glân i Gymru – Awyr Iach, Cymru Iach***, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydweithio ym mhob rhan o'r Llywodraeth ac ym mhob sector, gan gymryd camau i leihau llygredd aer er mwyn cefnogi iechyd y cyhoedd, bioamrywiaeth, yr economi a'r amgylchedd naturiol. Llygredd aer yn yr awyr agored yw'r bygythiad amgylcheddol mwyaf i iechyd. Mae'r polisi arfaethedig hwn yn gyson â'r nodau sydd yn y Cynllun Aer Glân.

Y defnydd o lo yn y gorffennol a'r presennol yng Nghymru

Rydym wedi comisiynu a chyhoeddi [adolygiad](#) o dystiolaeth o effeithiau cloddio a defnyddio glo i lywio'r safbwynt polisi hwn.

Canfu'r adolygiad leihad cyflym iawn yn y galw am gloddio glo, a bod glo bellach yn cael ei ddefnyddio'n bennaf mewn prosesau diwydiannol, y sector rheilffyrdd treftadaeth ac elfen fach o systemau gwresogi domestig.

Yng Nghymru, gwelwyd lleihad sylweddol mewn cynhyrchiant glo, o 2.4M o dunelli yn 2016 i 1.1M o dunelli yn 2018. Yn y DU, cyrhaeddodd cynhyrchiant glo ei lefel isaf erioed yn 2018, sef 2.6M o dunelli. Mae'r galw cyffredinol yn y DU, sef 11.9M o dunelli yn 2018, hefyd yn lleihau, gyda glo wedi'i fewnforio o Rwsia, UDA, Awstralia a Cholumbia yn cyflenwi'r diffyg mewn cynhyrchiant cynhenid. Ar hyn o bryd, mae'r galw yng Nghymru at ddefnyddiau diwydiannol nad ydynt yn gysylltiedig ag ynni yn bennaf, fel y diwydiannau dur a sment. Noda'r adroddiad fod tanwyddau amgen yn y sector sment yn disodli glo. Fodd bynnag, er bod gwaith ymchwil yn mynd rhagddo i ddatgarboneiddio gwaith cynhyrchu dur, mae'n debygol y bydd angen defnyddio glo yn y sector hwn am rai blynyddoedd i ddod.

Mae'r adroddiad yn ystyried effeithiau cloddio glo, gan nodi'r effeithiau ar bobl ger pyllau glo yn sgil swm, ansawdd aer, dirgryndod, effeithiau gweledol ac effeithiau ar iechyd. Mae hefyd yn ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â chludo glo, boed yn lo o'r pyllau glo sydd eisoes yn bodoli neu'n lo wedi'i fewnforio. Ystyrir effeithiau defnyddio glo fel tanwydd, gan gyfeirio at ymgynoriadau diweddar ar ansawdd aer. Caiff y gofyniad i adfer meysydd glo ei ystyried hefyd.

Mae ein hadolygiad o'r dystiolaeth yn dangos bod cloddio glo eisoes wedi lleihau i'r graddau mai dim ond tri phyll glo gweithredol sydd yng Nghymru. Mae'r galw am lo yn parau i leihau, o ganlyniad i'r gofynion atal heriol a datblygiad dulliau amgen carbon isel.

Nid yw'r adroddiad tystiolaeth yn trafod defnydd domestig, ond mae gennym ddata o Arolwg Cyflwr Tai Cymru. Yn 2017, dim ond 2% o'r 1.35M o gartrefi yng Nghymru a oedd yn defnyddio tanwydd solet (glo, coed neu fiomas) fel prif danwydd gwresogi.

Oherwydd hanes glofaol Cymru, mae rhai cartrefi'n dal i gael glo consesiynol. Lwfans o danwydd solet am ddim neu arian parod yw hwn, a gaiff ei gyllido gan y Trysorlys ac a roddir i gyn-gyflogeion y Bwrdd Glo Cenedlaethol, Corfforaeth Glo Prydain a Grŵp Glo'r DU sy'n gymwys i'w gael. Ym mis Ionawr 2019, roedd 803 o bobl yng Nghymru'n cael glo consesiynol. Caiff 20,000 o dunelli o lo o Gymru ei gyflenwi bob blwyddyn fel glo consesiynol ledled y DU.

Cwestiwn 1

Pa adroddiadau ffeithiol ychwanegol y dylid eu hystyried fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisi Cymru ar lo? Nodwch gyfeiriadau a dolenni i unrhyw dystiolaeth y cynigir ei chynnwys.

Diogelu a gwella bywydau pobl: polisi ar gyfer pontio cyfiawn

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i sicrhau Cymru carbon isel ffyniannus ar gyfer dinasyddion y presennol a'r dyfodol. Mae gennym hefyd dargedau statudol i leihau allyriadau. Er bod rhaid newid i ddefnyddio tanwyddau carbon isel, bydd angen inni reoli'r broses bontio er mwyn cael Cymru carbon isel fwy ffyniannus. Rhaid i'n polisi glo arfaethedig gyfrannu at leihau allyriadau. Fodd bynnag, rhaid symud i ffwrdd oddi wrth lo mewn ffyrdd sy'n diogelu ffyniant a, lle bo modd, yn ei gynyddu.

Yr her

Ein bwriad yw mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi'r broses o symud i ffwrdd oddi wrth gloddio a defnyddio glo, a hynny mewn ffordd adeiladol; gan sicrhau bod ardaloedd lle y caiff glo ei gloddio ar hyn o bryd yn cael eu hadfer i safon uchel.

Mae llawer o ffynonellau pŵer ar gael y gellir eu defnyddio yn lle glo, ac mae llawer ohonynt yn cynnig mantais ychwanegol, sef lleihau'r effeithiau ar lygredd aer. Bydd angen i ddiwydiannau lle nad oes dewis amgen ar hyn o bryd gael cymorth i ddod o hyd i opsiynau gwahanol. I wneud hyn, bydd angen arloesi, a all ynddo'i hun fod yn ffynhonnell ffyniant yn y dyfodol. Er y bydd angen ymdrech fyd-eang i ymateb i heriau mor fawr â'r rhain, bydd Cymru'n chwarae ei rhan fel gwlad fach a chlyfar.

Ysgogiadau sydd ar gael i Weinidogion Cymru er mwyn cyflawni'r polisi

Mae amrywiaeth o opsiynau ar gael i Weinidogion Cymru er mwyn cyflawni ein polisi glo. Mae'r adran hon yn ystyried pob un o'r ysgogiadau hyn mewn perthynas â'u gallu i'n helpu i gyflawni nod y polisi.

Pwerau Llywodraeth y DU

Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y pwerau i reoleiddio, trethu a chynnig cymhellion ariannol sylweddol mewn perthynas ag ynni. Dengys y dystiolaeth a gomisiynwyd gennym fod ymrwymiad Llywodraeth y DU i gael gwared yn raddol ar ddefnyddio glo i gynhyrchu ynni yn cael yr effaith fwrriadedig. O ystyried trywydd presennol y diwydiant, ni chredwn ei bod yn briodol ceisio datganoli'r fath bwerau mewn perthynas â glo ar hyn o bryd.

Cyfundrefnau cynllunio a thrwyddedu amgylcheddol yng Nghymru

Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am y gyfundrefn gynllunio. Polisi Cynllunio Cymru (PCC) argraffiad 10, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2018, yw'r sail i holl benderfyniadau cynllunio ar y tir dilynol Gweinidogion Cymru. Mae'n rhoi pwyslais ar bobl a lleoedd a bydd yn sicrhau bod datblygiadau a adeiledir heddiw yn gadael gwaddol o leoedd cynaliadwy sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sy'n gwella bywydau. Mae'r polisi glo arfaethedig hwn yn cyfarwyddo'r awdurdodau cynllunio lleol ynghylch materion i'w hystyried mewn perthynas â cheisiadau yn y dyfodol. Y gyfundrefn gynllunio yw'r prif ddull o benderfynu a yw gweithgaredd yn ddefnydd priodol o dir yng Nghymru.

Nod polisi cynllunio Cymru yw helpu i leihau allyriadau carbon yng Nghymru, drwy gyfyngu ar gloddio a defnyddio tanwyddau ffosil drwy eu rhoi ar waelod yr hierarchaeth ynni. Bydd yr Fframwaith Datblygu Cenedlaethol hefyd yn sicrhau bod y system gynllunio yng Nghymru yn chwarae rôl allweddol i hwyluso twf glân a datgarboneiddio ac yn helpu i feithrin y gallu i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Nodir bod cyflawni ein nodau datgarboneiddio strategol yn ffactor ysgogi allweddol y mae'n rhaid i bob cynllun datblygu ei gefnogi. Bydd y polisi arfaethedig hwn yn helpu i lywio argraffiadau o Bolisi Cynllunio Cymru yn y dyfodol. Bydd amodau ychwanegol a nodir yn y ddogfen honno neu ddogfennau olynol a chanllawiau cysylltiedig yn gymwys yn ychwanegol at y polisi hwn.

Mae cyfrifoldebau trwyddedu wedi'u rhannu rhwng awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), yn ôl natur a maint y gosodiad fel y rhagnodir yn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Mae trwyddedu amgylcheddol yn rheoli'r allyriadau a'r effaith amgylcheddol sy'n deillio o weithgareddau diwydiannol penodol. Dylai CNC gadw'r polisi hwn mewn cof wrth ystyried ei gylch gwaith eang sy'n cynnwys gwaith rheoleiddio, cynghori a rheoli tir.

Awdurdodi trwyddedau glo yng Nghymru

Rhodddwyd pwerau newydd i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag awdurdodi trwyddedau glo yng Nghymru ym mis Ebrill 2018. Mae angen i bob gweithrediad cloddio glo gael trwydded gan Awdurdod Glo y DU yn unol â Deddf y Diwydiant Glo 1994. Mae pwerau newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Cymru 2017 yn rhagnodi, os bydd yr Awdurdod Glo yn rhoi trwydded ar gyfer gweithrediadau cloddio glo yng Nghymru, mai dim ond os bydd Gweinidogion Cymru yn awdurdodi'r drwydded y daw i rym. Mae hyn yn gymwys i drwyddedau newydd ac amrywiadau i drwyddedau sydd eisoes yn bodoli. Felly, gall Gweinidogion Cymru gymhwyso unrhyw bolisi yng Nghymru at unrhyw gynnig i ymgymryd â gweithrediadau cloddio glo yng Nghymru.

Rhoi Cymorth

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang i weithredu mewn ffyrdd sydd o fudd i Gymru drwy roi cymorth i newid y system ynni a newid i ynni carbon isel. Mae'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio i gynnig cymhellion i bob sector ar gyfer symud i ffwrdd oddi wrth danwyddau ffosil. Ceir amrywiaeth o weithgareddau carbon uchel yng Nghymru, a bydd angen cymorth ac arloesedd i ganfod ffyrdd o leihau eu heffaith. Mae angen i Lywodraeth Cymru, busnesau, academia a Llywodraeth y DU wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod newidiadau'n digwydd yn ddigon cyflym i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Cwestiwn 2

Pa ysgogiadau neu gamau gweithredu eraill y gellid eu cymryd i gyflymu'r broses o bontio i economi carbon isel gan wella ffyniant ar yr un pryd? Nodwch gyfeiriadau a dolenni i unrhyw dystiolaeth y cynigir ei chynnwys.

Polisi Glo

Mae'r polisi glo drafft hwn yn rhan o'r camau gweithredu i sicrhau newid pendant i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio tanwyddau ffosil. Amcan polisi Llywodraeth Cymru yw osgoi parhau i gloddio a defnyddio tanwyddau ffosil. Sefydlwyd yr egwyddor hon a chafodd gryn gefnogaeth mewn ymatebion i ymgynghoriad y llynedd ar bolisi petrolewm, lle mai'r farn flaenllaw oedd y byddai lefelau uwch o gloddio tanwyddau ffosil yng Nghymru yn arwain at gynnydd mewn lefelau allyriadau drwy gloddio a defnyddio, gan gyfyngu ar allu Cymru i gyrraedd ei thargedau lleihau allyriadau. Fe'i nodir yn yr argraffiad cyfredol o Bolisi Cynllunio Cymru hefyd.

Cloddio Glo

Nid yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu awdurdodi trwyddedau newydd nac estyniadau i drwyddedau ar gyfer cloddio glo. Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried cymeradwyo trwyddedau unigol yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'n targedau hinsawdd. Ymhlith yr enghreifftiau eithriadol lle y gellir ystyried cymeradwyo mae sicrhau y caiff pyllau glo presennol neu rai gwag eu rheoli'n ddiogel, neu gefnogi ymchwil wyddonol.

Bydd yr egwyddorion a nodir yn ein polisi glo yn gymwys i gloddio glo ar dir yng Nghymru a'r meysydd glo ar wely'r môr yn y moroedd tiriogaethol o gwmpas Cymru.

Defnyddio glo i gynhyrchu ynni

Polisi'r DU yw cael gwared ar lo o'r broses o gynhyrchu ynni. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cael gwared yn raddol ar gynhyrchu ynni drwy losgi glo heb systemau rheoli carbon erbyn 2025. Mae Cymru'n cefnogi'r nod hwn drwy gyrraedd ein targedau allyriadau ac mae Polisi Cynllunio Cymru eisoes yn rhoi tanwyddau ffosil ar waelod yr hierarchaeth ynni. Mae'r polisi hwn yn cynnig na chaniateir defnyddio glo i gynhyrchu pŵer yng Nghymru, o ystyried bod amrywiaeth o dechnolegau ynni carbon isel eraill ar gael. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn mynd ati'n gyson ac yn rhagweithiol i geisio sicrhau ymrwymiad Llywodraeth y DU i leihau faint o danwyddau ffosil a gaiff eu cloddio a'u defnyddio ac, yn y pen draw, gael gwared ar hynny'n llwyr.

Hefyd, y polisi yng Nghymru yw peidio â chaniatáu sefydlu pyllau glo brig na phyllau glo dwfn newydd nac ymestyn rhai sydd eisoes yn bodoli, na chasglu a defnyddio glo gwastraff pyllau glo i gynhyrchu ynni yng Nghymru. Mae hyn yn gymwys i'r gyfundrefn gynllunio ac awdurdodiadau trwyddedu'r Awdurdod Glo.

Defnyddio glo at ddibenion heblaw cynhyrchu ynni

Er mwyn cynhyrchu ynni y mae glo wedi cael ei ddefnyddio'n bennaf. Fodd bynnag, mae gan Gymru eisoes sector diwydiannol sy'n seiliedig ar hen weithgarwch cloddio clo. Dengys ein tystiolaeth y caiff glo ei ddefnyddio yn y diwydiant dur, mewn marchnadoedd carbon arbenigol, yn y broses o wneud sment ac at ddefnydd domestig. Mae glo hefyd yn cyfrannu at allyriadau sectorau eraill, gan gynnwys prosesau diwydiannol, systemau gwresogi domestig a rhai gweithgareddau hamdden fel rheilffyrdd treftadaeth. Er nad ydynt mor sylweddol â'r sector pŵer, mae'r rhain hefyd yn ddarostyngedig i'r un gofynion lleihau allyriadau â chynhyrchu ynni.

Mae tri phwll glo gweithredol yng Nghymru. Petai cynigion, dan amgylchiadau cwbl eithriadol, yn cael eu cyflwyno ar gyfer estyniadau i'r rhain neu waith cloddio newydd i gefnogi defnydd diwydiannol o lo, byddai angen ystyried pob achos yn unigol. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd achosion o'r fath yn gwbl eithriadol ac, yn

amlwg, byddai angen iddynt ddangos pam mae eu hangen yng nghyd-destun targedau lleihau allyriadau newid yn yr hinsawdd.

Rhaid i unrhyw gynigion neu geisiadau eithriadol, y mae'n rhaid iddynt gyfrannu at ddatgarboneiddio, gael eu hystyried o safbwynt effeithiau byd-eang cyffredinol yn ogystal â ffyniant a thargedau allyriadau Cymru.

Gwneir penderfyniadau ynghylch amgylchiadau penodol pob achos yn seiliedig ar ei effaith ar yr hinsawdd, gyda'r rhagdybiaeth yn erbyn cloddio glo.

Y newid yn yr hinsawdd a gwaith cloddio glo domestig o gymharu â mewnforio glo

Rydym wedi gweld ceisiadau i gloddio glo yn cael eu cyfiawnhau ar y sail bod osgoi mewnforio glo yn cyfrannu at ddatgarboneiddio. Roedd yr adroddiad tystiolaeth gan Wardell Armstrong (WA) yn cydnabod bod y dystiolaeth ar y mater hwn yn gyfyngedig, ac yn argymhell y dylid comisiynu rhagor o dystiolaeth ar hyn o bryd. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried a oes angen gwneud hyn.

Mae'r dystiolaeth bresennol yn cydnabod y bydd llai o CO₂ corfforedig i'w briodoli i Gymru yn sgil glo a gynhyrchir yng Nghymru o gymharu â glo wedi'i fewnforio, lle y caiff allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth eu lleihau'n sylweddol. Mae gan lo a gynhyrchir yng Nghymru y potensial i ddisodli glo a gaiff ei fewnforio lle y gall gyflenwi defnyddwyr terfynol lleol (fel y mae adroddiad WA yn nodi sy'n digwydd yn y cais cynllunio ar gyfer pwll glo brig yn Dewley Hill). Fodd bynnag, mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw glo a gynhyrchir ac a ddefnyddir yng Nghymru yn arwain yn awtomatig at effaith positif-net ar y newid yn yr hinsawdd yn fyd-eang, gan ei bod yn debygol y bydd y glo a fyddai wedi cael ei fewnforio i Gymru yn cael ei ddefnyddio rywle arall. Os caiff y glo a ddisodlwyd ei ddefnyddio rywle arall, bydd glo o Gymru wedyn yn ffynhonnell ychwanegol o allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang. Mae gan Gymru rôl i'w chwarae fel dinesydd sy'n gyfrifol yn fyd-eang ac mae CO₂ yn llygrydd byd-eang. Oni ellir dangos bod angen cloddio glo yng nghyd-destun targedau lleihau allyriadau newid hinsawdd, polisi Gweinidogion Cymru yw na ddylid ei ganiatáu.

Cwestiwn 3

Ydych chi'n cytuno â pholisi Gweinidogion Cymru ynghylch y dewis rhwng glo cynhenid a glo wedi'i fewnforio? Pa dystiolaeth sy'n bodoli na fydd glo a ddisodlir gan lo a gynhyrchir yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio rywle arall, a thrwy hynny gynyddu allyriadau byd-eang?

Cymorth Llywodraeth Cymru i symud i ffwrdd oddi wrth lo

Byddwn yn parhau i annog y gwaith o ddatblygu atebion carbon isel i ddileu'r angen am lo, gyda'r bwriad o leihau mewforion glo, a'u dileu yn y pen draw. Mae'r polisi hwn yn annog diwydiant i ddod o hyd i gyfryngau amgen yn lle glo golosg neu danwyddau seiliedig ar lo er mwyn sicrhau hirhoedledd busnesau sy'n garbon-ddwys ar hyn o bryd. Mae hyn hefyd yn berthnasol i ddefnyddio glo i gynhyrchu gwres, na chredwn y bydd yn gynaliadwy yn y dyfodol, o safbwynt y newid yn yr hinsawdd nac ansawdd aer.

Mae nifer o feysydd gweithgarwch Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r newid hwn ar hyn o bryd, gan helpu i greu Cymru carbon isel iachach a mwy ffyniannus.

Rydym yn cefnogi'r defnydd o danwyddau amgen carbon isel mewn diwydiant, gan sicrhau y caiff anghenion Cymru eu cydnabod ym mholisiâu'r DU ac annog sefydliadau yng Nghymru i gael gafael ar gymorth. Mae amrywiaeth o ddatblygiadau arloesol sy'n gysylltiedig â glo a phyllau hanesyddol wedi'u cynnwys yng ngwaith FLEXIS (Flexible Integrated Energy Systems), sef prosiect ymchwil gwerth £24 miliwn sydd â'r nod o ddatblygu'r gallu i ymchwilio i systemau ynni yng Nghymru a fydd yn adeiladu ar y gallu o'r radd flaenaf sydd eisoes yn bodoli ym Mhrifysgolion Cymru.

Rydym hefyd yn gwella effeithlonrwydd cartrefi ac yn gosod technolegau adnewyddadwy drwy ein gwaith i wella tai cymdeithasol, a'n cynlluniau tlodi tanwydd. Gall yr unigolion hynny sy'n gymwys i gael glo consesiynol wneud cais am gymorth o dan Raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru. Mae'r Rhaglen Tai Arloesol hefyd yn treialu cyflwyno cartrefi sy'n lleihau neu'n dileu'r angen am danwyddau ffosil.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Pwyllgor y Senedd ar y Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig argymhellion yn yr adroddiad ar ei ymchwiliad tlodi tanwydd. Byddwn yn cyhoeddi ein cynllun drafft ar gyfer mynd i'r afael â thlodi tanwydd, a fydd yn ystyried yr argymhellion hyn, erbyn diwedd mis Medi fan bellaf er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos arno. Rydym yn disgwyl y caiff y cynllun terfynol ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Chwefror 2021 fan bellaf.

Cwestiwn 4

A yw'r polisi drafft yn briodol, o ystyried ein hymrwymiad i gefnogi cymunedau a busnesau drwy'r broses o symud i ffwrdd oddi wrth lo? Nodwch gyfeiriadau a dolenni i unrhyw dystiolaeth a gynigir i ategu eich ymateb.

Cwestiwn 5

Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Polisi Glo yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 6

Eglurwch sut yr ydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig ar lo gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

- cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a

- peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 7: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Y camau nesaf

Daw'r ymgynghoriad i ben ar 23 Medi 2020. Byddwn yn dadansoddi'r ymatebion ac yn cyhoeddi'r polisi terfynol yn nes ymlaen yn 2020.